Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Eifionydd
# Porthmadog
# Gwynedd
# LL49 9HS

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Mr Gwyn Thomas**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Eifionydd yn ysgol naturiol ddwyieithog i fechgyn a merched rhwng 11 ac 16 oed a gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Gwynedd. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol Porthmadog ac mae'n gwasanaethu trefi Porthmadog a Chricieth a’r ardaloedd gwledig cyfagos.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o bob gallu.

Mae 431 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2005, roedd 534 o ddisgyblion ar y gofrestr. Coleg Meirion Dwyfor sydd yn gyfrifol am ddarparu addysg ôl -16 yn yr ardal.

Mae gan yr ysgol gyfwerth â 28.53 o staff addysgu amser llawn a naw o staff cynnal cyfwerth ag amser llawn.

Yn 2010-2011, roedd gan 8% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn lawer yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.4%.

Mae gan 2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 16% pellach angen cymorth ychwanegol. Canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig yw 18% sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.2%.

Mae 68% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 98% yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2010. Yn ystod yr arolwg diwethaf, roedd yn ddirprwy bennaeth. Penodwyd y pennaeth cynorthwyol dros dro ym Medi 2010.

Mae’r ysgol yn anelu at sicrhau addysg o’r safon uchaf bosibl i bob disgybl a’u harwain i ddatblygu i fod yn unigolion cyfrifol ac aeddfed, fel y gallant fod yn aelodau llawn a gweithredol o gymdeithas ddwyieithog.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Eifionydd yw £4350 sy’n cymharu gydag uchafswm o £5024 ac isafswm o £3965 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Ngwynedd. Mae gan yr ysgol y degfed gyllideb uchaf fesul disgybl o’r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae hon yn ysgol dda oherwydd:

- arweinyddiaeth ardderchog y pennaeth;
- gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau cyfnod allweddol 3 dros y flwyddyn ddiwethaf;
- ethos gynhwysol yr ysgol a chwricwlwm eang a chytbwys;
- gofal ac arweiniad o radd uchel; a
- bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda chymhwyster.

Barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- perfformiad boddhaol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- safon yr addysgu mewn lleiafrif arwyddocaol o wersi;
- y gwahaniaeth rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn benodol mewn Cymraeg a Saesneg;
- presenoldeb yng nghyfnod allweddol 4; ac
- anghysondeb o ran marcio llyfrau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Barnwyd bod rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- gweledigaeth ragorol y pennaeth;
- cyfeiriad strategol cadarn a chlir gan y pennaeth a'r Uwch Dim Rheoli sydd wedi ei seilio ar brosesau hunan arfarnu trylwyr;
- dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o benaethiaid adrannau o sut i ddatblygu gweledigaeth glir yr ysgol mewn perthynas â chodi safonau;
- trefniadau cadarn i fonitro gwersi ac i ddod i farn ynghylch ansawdd y dysgu a'r addysgu;
- systemau cadarn i fonitro'r gyllideb ac i sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer y dyfodol;
- cefnogaeth ac ymroddiad y llywodraethwyr i sicrhau gwelliant parhaus;
- cefnogaeth ardderchog a drefnwyd gan yr awdurdod lleol; a
- chynllunio manwl a thrylwyr i godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Eifionydd:

A1 barhau i godi safonau ar draws y pynciau ac yn benodol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth;

A2 barhau i ddatblygu'r medrau gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm;

A3 godi safon yr addysgu o ansawdd digonol i dda neu well;

A4 wreiddio asesu ar gyfer dysgu ymhellach drwy rannu arfer dda;

A5 ddatblygu effeithiolrwydd y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig drwy ddiffinio mwy ar rôl y cydlynydd a chryfhau cydlynu ar draws y cwricwlwm; a

A6 sicrhau cynnydd a datblygiad mewn dysgu rhwng cyfnod allweddol 2 a 3 drwy ddatblygu prosesau trosglwyddo cwricwlaidd.

Mae'r holl argymhellion yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn ymateb i'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro'r cynnydd o ran ymateb i'r argymhellion hyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod o dair blynedd yn is na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae'r holl ddangosyddion wedi gwella'n gyson dros y cyfnod hwn. Yn 2011, mae Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol (y dangosydd pynciau craidd) a Chymraeg iaith gyntaf a mathemateg fel pynciau ar wahân, yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg. Mae Saesneg a gwyddoniaeth yn yr hanner isaf. Mae perfformiad yn y pynciau nad ydynt yn rhai craidd wedi gwella'n arwyddocaol. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol wedi gwella yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011, mae'r data dros dro yn dynodi fod yr ysgol yn perfformio'n dda yn y dangosydd sgôr pwyntiau cyfartalog eang sydd yn cynnwys yr holl gymwysterau gaiff eu cymeradwyo'n allanol ar oed 15. Yn y dangosydd trothwy lefel 2 (casgliad o ddysgu sydd yn gyfwerth â phump TGAU ar raddau A*-C) gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n llawer is na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth hefyd yn llawer is nag yw mewn ysgolion tebyg.

O gymharu â'u perfformiad yn y cyfnod allweddol blaenorol, gwna'r disgyblion gynnydd sydd fymryn yn well na'r disgwyl yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, cafodd y cynnydd disgwyliedig yn nangosyddion trothwy lefel 2 a'r dangosydd pynciau craidd eu cyfyngu gan y safonau isel a gyflawnwyd gan y disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, mae perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad y merched, yn enwedig mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg yn y ddau gyfnod allweddol. Cafodd y gwahaniaeth hwn effaith negyddol ar amryw o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'r disgyblion sydd heb yr hawl. Mae hyn yn unol â'r duedd yn genedlaethol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp wedi lleihau yng nghyfnod allweddol 4 ar wahân i yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn ôl y disgwyliadau.

Yn gyffredinol, mae'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion mewn gwersi yn amrywio. Yn y mwyafrif o wersi lle mae'r addysgu yn dda neu well, mae cynnydd a safonau'r disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn cymhwyso'r hyn maent wedi'i ddysgu eisoes yn dda ac yn medru meistroli cysyniadau newydd. Yn y lleiafrif arwyddocaol o wersi lle nad yw'r gweithgareddau dysgu yn heriol, mae cynnydd yn araf a digonol yn unig yw'r safonau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae safonau darllen yn amrywio. Fodd bynnag, mae disgyblion yn darllen yn dda i'w gilydd mewn parau. Gall y mwyafrif o ddisgyblion ddynodi'r nodweddion allweddol mewn testunau a dewis tystiolaeth i gefnogi eu safbwyntiau. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gyfraniadau llafar o ansawdd da yn y dosbarth ond mae lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn hyderus i wneud hyn.

Mae disgyblion galluog yn ysgrifennu'n ymestynnol ac yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, nad ydynt yn ysgrifennu'n ddigon cywir. Caiff gwaith ei gyflwyno'n wael ac mae'n cynnwys gormod o wallau. Mae camgymeriadau sillafu ac atalnodi i'w gweld yn aml.

Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigonol ar draws y cwricwlwm. Mewn gwrthgyferbyniad, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol a chânt eu defnyddio'n helaeth. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 ac yng nghyfnod allweddol 4 wedi ennill cymwysterau ar lefel 2 yn y sgil hanfodol hwn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi cyflawni cymhwyster lefel 2 sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu a rhifedd. Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011, mae safonau yn y medrau hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y dangosyddion trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau cyfartalog eang.

Cyflawna'r disgyblion safonau da mewn Cymraeg iaith gyntaf yn y ddau gyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae canlyniadau wedi codi'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf ac maent yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y canran o ddisgyblion a enillodd lefel 5 neu uwch yn 88% yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 4, cofrestrwyd bron y cyfan o'r disgyblion ar gyfer y cwrs TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Dros y tair blynedd ddiwethaf, enillodd bron i 70% o'r disgyblion radd A*-C. Caiff y raddfa llwyddiant yma ei gydweddu'n eithaf agos mewn Llenyddiaeth Cymraeg. Defnyddia bron y cyfan o'r disgyblion eu medrau dwyieithrwydd yn effeithiol iawn. Mae medrau cyfathrebu'r disgyblion yn arbennig o gryf. Caiff tystiolaeth o ansawdd da mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ei ddefnyddio'n dda i ennill cymhwyster lefel 2 mewn medrau cyfathrebu.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol dda. Teimla'r rhan fwyaf fod yr ysgol yn effeithiol wrth ddelio gyda'r ychydig achosion o fwlian. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw gyda nifer dymunol yn cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol gan gynnwys y fenter 5x60 a'r wal ddringo boblogaidd. Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau ffitrwydd, chwaraeon ac allgyrsiol perthynol yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn ystyriol, yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol yn y coridorau cul. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol nad ydynt yn ymddwyn yn briodol mewn dosbarthiadau. Dros y tair blynedd ddiwethaf, dim ond un disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel iawn.

Mae'r cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2010-2011, mae presenoldeb yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol o 91.4%. Fodd bynnag, o'i gymharu gydag ysgolion tebyg, mae'n llawer is na'r cyfartaledd oherwydd absenoldeb ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae presenoldeb yng nghyfnod allweddol 3 yn dda iawn. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Mae ymglymiad disgyblion mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol yn dda. Mae llawer yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn prosiectau o fewn y dref ac yn codi symiau sylweddol o arian ar gyfer amryw o elusennau. Mae'r disgyblion hyn yn ennill lefelau gwerthfawr o brofiad ac o hyder.

Gwna'r disgyblion gyfraniad gwerthfawr i fywyd ysgol trwy'r cyngor ysgol, y grŵp maeth a holiaduron disgyblion.

Yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd, mae disgyblion yn cydweithio'n dda. Mae gan y mwyafrif ymagweddau cadarnhaol tuag at waith. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn cefnogi'r disgyblion iau trwy'r system bydi llwyddiannus iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'n sicrhau y rhoddir amser digonol i gwmpasu gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r cydweithio gyda'r ysgolion cynradd partner er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth gwricwlaidd yn ddigonol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sydd yn ymateb yn dda i anghenion cyflogwyr lleol. Mae gan bob disgybl y cyfle i ennill cymwysterau. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r fenter Llwybrau Dysgu (14-19). Mae partneriaeth gynhyrchiol a llwyddiannus yn bodoli gydag ysgolion partner eraill yn yr ardal a'r Coleg. Mae'r ysgol yn rhagori ymhell ar ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Mae cwricwlwm addas ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y disgyblion mwy galluog a dawnus gyfleoedd i ennill cymwysterau ychwanegol ynghyd â chyfleoedd i fynychu dosbarthiadau meistr ym Mhrifysgol Bangor. Mae disgyblion yn dilyn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru, sydd yn gwella profiadau ffurfiol ac anffurfiol disgyblion yn llwyddiannus a darparu llwybrau priodol ar gyfer cymwysterau pellach.

Sicrha'r ysgol fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cwrs astudio o'u dewis yng nghyfnod allweddol 4. Trwy gysylltiadau agos gyda Gyrfa Cymru, mae'n paratoi ac yn arwain y disgyblion yn dda ar gyfer gwneud eu dewisiadau pwnc.

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd chwaraeon a cherddorol, amrediad o ymweliadau gwerth chweil, amrywiaeth helaeth o weithgareddau'r Urdd ac amryw o brosiectau codi arian.

Mae'r cyflwyniad o'r medrau allweddol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda. Mae'r

ddarpariaeth mewn rhifedd yn dda. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion sicrhau cymwysterau Medrau Hanfodol yn arbennig o briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn ddigonol. Mae'r gweithrediad a'r monitro o lythrennedd ar draws y cwricwlwm yn foddhaol.

Mae'r ddarpariaeth o'r iaith Gymraeg yn rhagorol ar draws yr ysgol. Caiff bron y cyfan o'r disgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r ethos Gymraeg o fewn yr ysgol yn enghreifftiol, ac mae'r dimensiwn Gymraeg o fewn y cynlluniau gwersi yn atgyfnerthu'r ymagwedd gadarnhaol mae'r ysgol yn ei arddangos tuag at yr iaith a'r dimensiwn Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at y wobr arian fel rhan o Gynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd. Mae meysydd cwricwlaidd yn codi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang ac eleni dewiswyd disgybl o'r ysgol fel hyrwyddwr newid hinsawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu.

**Addysgu: Digonol**

O fewn y gwersi a arsylwyd, mae'r mwyafrif o athrawon yn cyflwyno gwersi da ac yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn effeithiol i fwydo'u cynllunio. Defnyddir ystod dda o strategaethau dysgu, gyda chyflymder a her dda yn y gwersi. Yn yr ychydig iawn o wersi rhagorol a welwyd, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn, maent yn denu'r disgyblion yn llawn gydag amrediad o weithgareddau hynod o ddychmygus ac yn sicrhau y caiff yr addysgu effaith gadarnhaol ar ddysgu.

Mae diffygion pwysig mewn lleiafrif o wersi. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd diffyg her mewn gwersi, disgwyliadau isel ac aflonyddwch ar lefel isel gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae ansawdd a chysondeb y marcio yn amrywio rhwng ac o fewn adrannau. Yn yr enghreifftiau gorau, yr adran Gymraeg yn benodol, caiff llyfrau eu marcio'n rheolaidd a rhoddir sylwadau defnyddiol i'r disgyblion ar sut i wella. Fodd bynnag, mewn tua hanner o'r llyfrau a samplwyd, mae'r marcio yn arwynebol ac mae gormod o waith ar goll neu yn anghyflawn.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu. Fodd bynnag, mae anghysondebau wrth ei fabwysiadu ar draws yr ysgol.

Caiff disgyblion eu hysbysu'n dda am eu cynnydd ac mae'r mwyafrif yn gwybod eu lefelau cyrhaeddiad cyfredol. Ceir system tracio hygyrch a chyson sydd yn sicrhau cysondeb wrth ddynodi tangyflawniad a sicrhau y caiff strategaethau i wella'r sefyllfa eu gweithredu. Mae effaith lawn y system mentora gadarnhaol ym mlwyddyn 10 eto i'w weld ar safonau yn y pynciau.

Mae adroddiadau i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr. Derbynia'r rhieni ddau adroddiad interim ac adroddiad diwedd blwyddyn ar gynnydd academaidd ac adroddiad bob tymor ar ymddygiad, ymdrech a phrydlondeb. Mae bron y cyfan o'r sylwadau a'r targedau ar gyfer gwelliant gan athrawon pwnc yn yr

adroddiadau diwedd blwyddyn yn bwnc benodol ac yn werthfawr i'r disgyblion ac i'w rhieni. Darpara'r adroddiad ofod gwerthfawr ar gyfer sylwadau'r rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymagweddau cadarnhaol. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni fod yr ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar.

Darpara'r ysgol lefel arbennig o dda o ofal a lles ar gyfer ei disgyblion. Caiff eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol eu cefnogi'n dda gan bartneriaeth helaeth gydag amrediad o asiantaethau allanol. Caiff y gefnogaeth arbenigol a ddarperir gan yr ysgol ei thargedu'n eglur ac mae'n arwain at welliant mewn safonau, ymagweddau, ymddygiad, hyder a lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Caiff y ddarpariaeth o addysg bersonol a chymdeithasol ei chynllunio'n dda ac mae'n llesol wrth hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion.

Mae addysg ac arweiniad gyrfaol o ansawdd da, gan gynnwys y rhaglen byd gwaith, yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu datblygiad personol ac academaidd a'u dewisiadau gyrfa.

Mae gan y cyngor ysgol rhan weithredol ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn effeithiol wrth ddynodi a monitro cynnydd disgyblion sydd ag AAA. Mae prosesau priodol mewn lle ar gyfer adolygu cynnydd. Mae disgyblion yn elwa oddi wrth dîm o weithwyr cynnal sydd ag amrediad eang o arbenigedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu. Darpara'r ysgol gefnogaeth darllen dda ar gyfer disgyblion sydd wedi eu targedu. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae'r cyfleodd i ddisgyblion galluog a dawnus yn gwella.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau addas ar gyfer diogelwch.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chaiff bawb eu trin yn dda. Teimla'r disgyblion yn ddiogel ac maent yn elwa oddi wrth lefelau da o ofal. Mae gwasanaethau a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn sicrhau fod disgyblion yn ymwneud yn gadarnhaol â materion amlddiwylliannol ac amrywiaeth. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyfartal i gyrchu'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn diwallu'r gofynion statudol mewn perthynas â Chynllun Cydraddoldeb ac Anabledd a Hygyrchedd.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu cyffredinol a'r ystafelloedd arbenigol o ansawdd da. Caiff adnoddau eu cydweddu i anghenion disgyblion. Mae arddangosfeydd yn y coridorau a'r dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu ac yn dathlu llwyddiant. Caiff yr ysgol a'r ardaloedd hamdden eu cynnal a'u cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau cefnogaeth eang i'w gweledigaeth am ddyfodol yr ysgol. Mae wedi arwain yr ysgol yn eithriadol o dda trwy gyfnod arbennig o anodd. Trwy ddatblygu gwaith tîm effeithiol a chynyddu atebolrwydd i bawb, mae wedi dechrau peri gwelliannau arwyddocaol mewn cyfnod byr o amser gyda chefnogaeth ei staff. Mae hyn yn gyflawniad rhagorol. Cafodd ei chynorthwyo'n fedrus gan ei phennaeth cynorthwyol dros dro.

Ers ei phenodi yn Ionawr 2010, mae wedi dynodi meysydd sydd angen sylw brys ac wedi gweithredu'n gadarn, yn briodol ac yn effeithiol iawn i ymdrin â nhw. Mae'r ysgol wedi ailfodelu'r cwricwlwm a gwella'r ddarpariaeth cyrsiau trwy gydweithrediad â darparwyr eraill. Mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn arwyddocaol iawn. Bellach, mae gan y rhan fwyaf o'r rheolwyr canol ddealltwriaeth eglur o'u rolau ac yn ymgymryd â nhw gydag effeithlonrwydd ac ymroddiad. Mae gweithdrefnau da ar gyfer adolygiadau adran, hunan arfarnu a chynllunio datblygu.

Mae'r corff llywodraethu yn wybodus ac yn cefnogi gwaith yr uwch dîm arweinyddol yn gryf. Derbyniodd aelodau o'r corff llywodraethu hyfforddiant i ddefnyddio data ac maent wedi ennill dealltwriaeth gynyddol o berfformiad yr ysgol. Mae ystod briodol o bwyllgorau bellach yn mynd i'r afael â gwahanol faterion ac o ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn fwy effeithiol fel cefnogwyr a chyfeillion beirniadol yr ysgol.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth briodol o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19, gan annog bwyta'n iach a gwella medrau, gan gynnwys y gallu i weithio'n ddwyieithog.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gryfderau sy'n datblygu yn yr ysgol ac mae'r cylch cyntaf o'r broses hon newydd ei gwblhau. Mae'r pennaeth wedi sefydlu system o hunan adolygu sydd yn tynnu'n helaeth ar amrediad o ddata perfformiad uniongyrchol. Mae wedi sefydlu diwylliant lle mae athrawon yn gynyddol hyderus wrth ddefnyddio data cyrhaeddiad disgyblion i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth. Maent hefyd yn defnyddio arsylwadau gwers helaeth ac yn archwilio gwaith disgyblion i ddynodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol i gadarnhau a dilysu arfarniadau'r ysgol. O ganlyniad, ceir ffocws eglur ar godi safonau ar draws yr ysgol.

Ar lefel ysgol-gyfan, mae'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda ac mae cynllun datblygu'r ysgol yn dynodi blaenoriaethau a thargedau eglur. Mae'n dynodi'r strategaethau i'w dilyn, yn dyrannu adnoddau, terfynau amser a chyfrifoldebau ac yn dynodi'r meini prawf llwyddiant yn eglur. Mae cynllunio ar gyfer datblygiad gan reolwyr canol yn adlewyrchu'r dynesiad ysgol-gyfan ond mae'n llai datblygedig.

Mae'r pennaeth wedi annog llawer o athrawon i gydweithio gyda chydweithwyr yn Ysgol Eifionydd ac ysgolion eraill i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol.

Mae hyn yn dechrau cael effaith, er enghraifft yn sut maent yn cynllunio i ddatblygu medrau hanfodol disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o argymhellion o'r adroddiad diwethaf. Fodd bynnag, bu cynnydd annigonol wrth godi safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill a cholegau i ymestyn yr ystod o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd effeithiol mewn lle. Caiff y cyrsiau hyn effaith gadarnhaol ar safonau, lles ac ymddygiad y disgyblion.

Mae'r cysylltiadau gyda busnesau a chyflogwyr lleol yn gryfder ac yn darparu cyfleoedd profiad gwaith estynedig gwerthfawr. Ceir cydweithrediad da rhwng ysgolion wrth gynllunio a chynhyrchu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm byd gwaith.

Mae disgyblion yn elwa oddi wrth gysylltiadau cryf a pharhaus gydag ystod o asiantaethau disgyblaethol a phartneriaid cymunedol. Mae hwn yn ardal o gryfder arbennig o fewn yr ysgol ac yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

Mae'r cysylltiadau bugeiliol gydag ysgolion cynradd partner yn gryf ac yn sicrhau fod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn eu amgylchedd newydd.

Mae cyfathrebu gyda rhieni yn datblygu'n effeithiol. Derbynia rhieni ddiweddariadau aml ar gynnydd eu plant. Ceir cysylltiadau da gyda sefydliadau hyfforddi athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda. Mae'r pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol a chaiff gwariant ei gynllunio a'i fonitro'n ofalus. Mae pwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn cynnal trosolwg rheolaidd a thrwyadl o benderfyniadau ariannol.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chânt eu lleoli'n briodol. Mae rheolwyr uwch yn dynodi anghenion datblygiad proffesiynol athrawon yn dda trwy ddefnyddio trefniadau rheoli perfformiad ac arsylwadau gwers.

Mae'r ysgol yn diwallu'r gofynion statudol o ran y cytundeb cenedlaethol ar 'Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith'.

Fodd bynnag, gan fod y safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn ddigonol, rhydd yr ysgol werth ddigonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r dangosydd pynciau craidd a'r holl bynciau craidd yn unigol wedi gwella'n gyson. Bu'r gwelliant mwyaf mewn gwyddoniaeth.

Yn 2011, roedd y dangosydd pynciau craidd a mathemateg yn y chwarter uchaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd Cymraeg iaith gyntaf yn yr hanner uchaf. Roedd Saesneg a gwyddoniaeth yn yr hanner isaf. Roedd hwn yn welliant ar y ddwy flynedd flaenorol pan oedd bron yr holl ddangosyddion un ai yn yr hanner neu'r chwarter isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau’r meincnod prydau ysgol am ddim.

Yn 2011, roedd canlyniadau yn y dangosydd pynciau craidd a mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch yn rhoi'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu (grwpiau o ysgolion gyda chyfraddau tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, gydag AAA ac yn dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol). Roedd Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a gwyddoniaeth yn is. Fodd bynnag, roedd pob un o'r pedwar pwnc craidd a'r dangosydd pynciau craidd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Ar lefel 6 neu uwch dros gyfnod o dair blynedd, roedd canlyniadau mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a mathemateg yn amrywio. Gwelwyd tuedd tuag at i fyny mewn gwyddoniaeth. O'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim yn 2011, dim ond Cymraeg iaith gyntaf oedd yn y chwarter uchaf. Roedd gweddill y pynciau craidd yn yr hanner isaf.

Yn ystod 2009-2011 mewn gwyddoniaeth, roedd cyflawniad disgyblion ar lefelau 5, 6 a 7 yn gyson is na chyfartaledd y teulu ym mhob un o'r tair blynedd.

Rhwng 2009 a 2011, roedd cyflawniad disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn y pynciau nad oeddent yn rhai craidd, wedi gwella'n arwyddocaol. Yn 2011, roedd canlyniadau mewn wyth o'r pynciau nad oeddent yn rhai craidd yn rhoi'r ysgol yn yr hanner uchaf o'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Gosodwyd pum pwnc yn y chwarter isaf yn 2009 a 2010.

Yn 2011, gwnaeth y disgyblion gynnydd gwell na'r disgwyl yn y dangosydd pynciau craidd a Chymraeg iaith gyntaf, yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Gwnaed y cynnydd disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4 (data dros dro sydd ar gyfer 2011) roedd perfformiad disgyblion yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion trothwy a sgôr pwyntiau eang wedi codi dros gyfnod o dair blynedd o 2009-2011. Roedd y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg wedi codi o 13 pwynt canradd. Fodd bynnag, mae'r dangosydd hwn yn parhau yn y chwarter isaf o'i gymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau bwyd am ddim. Roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi gwella'n gyson ac yn 2011 roedd yn yr hanner uchaf o'i gymharu gydag ysgolion tebyg. Roedd yr ysgol bron bob amser yn is na chyfartaledd y teulu yn ystod 2009-2011.

Yn ystod 2009-2011, roedd perfformiad disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a gwyddoniaeth ar lefel 2 (graddau A*-C mewn TGAU) wedi amrywio. Fodd bynnag, roedd mathemateg wedi codi'n gyson. Yn gyffredinol, ar wahân i mewn Cymraeg iaith gyntaf, roedd y tri phwnc craidd sydd yn weddill yn gyson yn y chwarter isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Cafodd y tri phwnc craidd hyn effaith negyddol ar amryw o ddangosyddion allweddol.

Yn 2011, gwnaeth y disgyblion gynnydd oedd ychydig yn well na'r disgwyl yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd â'r trothwy lefel 1 (casgliad o ddysgu sydd yn gyfwerth â phump TGAU ar raddau D-G) yn seiliedig ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, cafodd y cynnydd disgwyliedig yn nangosyddion trothwy lefel 2 a'r dangosydd pynciau craidd eu cyfyngu gan y safonau isel a gyflawnwyd gan y disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn ystod 2009-2011, gadawodd yr holl ddisgyblion yr ysgol gyda chymhwyster cydnabyddedig. Roedd hyn yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol am yr un cyfnod. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi parhau gyda'u haddysg llawn amser mewn ysgol, addysg bellach neu hyfforddiant mewn gwaith. O'r disgyblion Blwyddyn 11 a adawodd yn haf 2011, nid yw 2% mewn addysg, hyfforddiant nac mewn gwaith. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn nodweddion da.

Yn groes i'r duedd yn genedlaethol, yn ystod 2009-2011, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn ychydig iawn o achosion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn dros gyfnod o dair blynedd ar lefel 5+ ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd. Mae gwahaniaeth arwyddocaol, ac sydd yn ehangu, mewn perfformiad sydd yn fwy na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol yn y dangosydd pynciau craidd. Fodd bynnag, ar lefel 7 mewn gwyddoniaeth, mae'r bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn gyson.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn groes i'r duedd yn genedlaethol, mae'r bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn y trothwy lefel 1. Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r merched yn gwneud yn llawer gwell na'r bechgyn mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg. Mae gwahaniaeth arwyddocaol o dros 20 pwynt canran rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched. Mae hyn yn fwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mewn gwyddoniaeth a mathemateg, mae'r bwlch rhwng y bechgyn a'r merched yn ehangu ac yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ychydig iawn o blant a ofelir amdanynt yn gwneud cynnydd cadarn mewn perthynas â'u gallu. Mae'r disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan yn gwneud cynnydd da.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd heb yr hawl yn cynyddu yn y dangosydd pynciau craidd. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad y disgyblion oedd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn y dangosydd pynciau craidd, trothwy lefelau 1 a 2 yn gwella. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn y trothwy lefel 2 yn ehangu gan gynnwys mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 21 o ymatebion i holiadur y rhieni. Mae hwn yn ymateb isel. Fodd bynnag, rhoddodd llawer ohonynt ymatebion cadarnhaol i lawer o gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ac yn teimlo y caiff eu plant eu helpu i ymgartrefu i ysgol newydd lle maent yn hapus a diogel. Creda'r rhieni fod ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael.

Dywed llawer o rieni fod eu plant yn gwneud cynnydd da am fod disgwyliadau'n uchel. Cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Ymdrinnir â'r disgyblion yn deg. Mae llawer yn medru troi at yr ysgol gydag unrhyw broblem. Mae llawer yn datgan y caiff eu plant eu datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ymgymryd â chyfrifoldeb. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer yn rheolaidd. Fodd bynnag, mynegodd llawer o rieni bryder ynglŷn ag ymddygiad y disgyblion.

Mae'r mwyafrif yn datgan y rhoddir cyngor da i'w plant wrth iddynt baratoi i symud i'w hysgol neu goleg nesaf neu i fyd gwaith a bod eu gwaith cartref yn briodol. Dywed y mwyafrif o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae mymryn dros hanner o rieni yn datgan fod yr addysgu yn dda a bod cymorth ychwanegol ar gael.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniodd Estyn ymatebion oddi wrth 95 o ddisgyblion. Roedd safbwyntiau'r bechgyn a'r merched bron yr un fath.

Roedd yr holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol lle'r oedd llawer o gyfleoedd i ymarfer yn rheolaidd.

Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddigon o adnoddau ac yn gwneud yn dda. Mae'r athrawon yn cefnogi'r disgyblion i ddysgu ac i wneud cynnydd da. Mae rhywun ar gael bob amser i drafod unrhyw bryderon. Caiff y rhan fwyaf eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain ac i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain. Caiff y disgyblion eu parchu a'u trin yn deg. Cânt hefyd eu helpu i ddeall ac i barchu eraill. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod sut i gadw'n iach ac yn fodlon â'r modd y cânt eu paratoi am fywyd ar ôl gadael yr ysgol.

Rhoddwyd cyngor da i lawer wrth iddynt wneud eu dewisiadau pwnc. Creda llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlian yn dda. Mae llawer yn credu'n gyson fod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Rhoddwyd cyngor da wrth ddewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae mwyafrif y disgyblion o'r farn fod ymddygiad y disgyblion yn y dosbarth yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| David Hughes | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Anne Morris | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alwen Watkin | Enwebai'r Ysgol |

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |